Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Eiddilwch: Negeseuon o ymgynghoriad Comisiwn Pobl Hŷn Cymru

Hydref 2011

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF10 5FL
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Rhagymadrodd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am annog, hybu a helpu i sefydlu un ymagwedd ledled Cymru at eiddilwch, a honno'n arwain at newid cadarnhaol ym mywydau pobl hŷn.

Bwriad yr adroddiad hwn, sydd wedi'i seilio ar drafod ymysg gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol mewn seminar o dan aden y Comisiwn ym mis Mawrth 2011, yw cyfrannu at ddatblygu consensws ac ymrwymiad i ffordd newydd o gefnogi pobl hŷn eiddil. Mae'n anelu at gyflwyno ymdeimlad gwell o'r hyn y mae angen inni ei wneud nesaf yng Nghymru a ble y mae angen canolbwyntio'n hegni yn unigol ac ar y cyd.

Mae gan bobl hŷn eiddil anghenion cymhleth yn aml. Mae yna gonsensws cynyddol bod gwasanaethau'n siomi pobl hŷn eiddil yn rhy aml a bod angen i'r systemau cymorth presennol newid.

Does dim diffiniad o eiddilwch wedi'i dderbyn, nac o egwyddorion eiddilwch. Ond o ran cysyniad, mae eiddilwch yn fwyfwy arwyddocaol ac yn ennyn mwyfwy o gydnabyddiaeth ymhlith y rhai sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan. Mae cyd-destun hawliau dynol ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn, sy'n sail i waith y Comisiwn, yn allweddol bwysig wrth ystyried ymagweddau at eiddilwch. Bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn cael effaith arwyddocaol ar wahaniaethu mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Rôl y Comisiwn Pobl Hŷn yw sbarduno newid mewn arferion drwy hybu'r arferion gorau wrth drin pobl hŷn, a thrwy herio gwahaniaethu ar sail oed. Mae canolbwyntio ar eiddilwch yn codi cyfleoedd i ni, ac i bawb sy'n ymwneud â chefnogi pobl hŷn, i sicrhau gwell gwasanaethau i bobl hŷn.

Meysydd lle ceir consensws

Yn y trafodaethau ymysg gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a gynhaliwyd gan y Comisiwn ym mis Mawrth 2011 cafwyd consensws yn y meysydd a ganlyn.

Deall eiddilwch a phobl hŷn

Mae yna ddiffyg consensws o hyd o ran diffiniad o eiddilwch ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol. Yn ychwanegol, does dim ymagwedd gytûn at eiddilwch sy'n cael ei rhannu ar draws byd iechyd a gofal cymdeithasol. Oherwydd hyn, mae pobl hŷn eiddil sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, yn enwedig pan fyddan nhw'n agored i niwed, yn cael eu siomi'n fwyfwy. Mae angen set gytûn o egwyddorion a diffiniad er mwyn gwella'r gyd-ddealltwriaeth a gwasanaethau cydlynol.

Gweithio mewn partneriaeth

Pwysleisiodd y seminar mor bwysig yw hi fod darparwyr gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru i wella gwasanaethau i bobl hŷn eiddil. O gyflwyno gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon, dylid sicrhau gwasanaethau di-fwlch i'r rhai sy'n agored i niwed. Mae'n arbennig o bwysig bod darparwyr gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru i sicrhau nad yw'r heriau cyfredol i'r cyllid cyhoeddus yn rhwystro nac yn dad-wneud cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes.

Mae llwyddiant wrth weithio mewn partneriaeth yn gofyn ymrwymiad rhwng y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ogystal â chynllunio gweithredol er mwyn sicrhau bod llwybrau partneriaeth yn cael eu sefydlu a'u plannu a'u monitro'n effeithiol.

Arweinyddiaeth

Yn ystod y seminar, nodwyd bod arweinyddiaeth dda yn ffactor allweddol wrth hybu newid a gwelliannau mewn gwasanaethau. Cydnabuwyd bod angen i staff gael eu grymuso i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ac i roi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person. Mae angen arweinyddiaeth ar bob lefel i sbarduno newid a gwelliannau.

Roedd yna gonsensws hefyd y byddai'n fuddiol cael cyfarwyddyd cliriach a mwy cryno gan Lywodraeth Cymru

Ymgysylltu â phobl hŷn, eu teuluoedd a staff

Roedd un neges allweddol o'r seminar yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng pobl hŷn a'u teuluoedd/gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol a phenderfynwyr. Dydy'r unigolion hynny sydd y tu allan i wasanaethau (sef darpar ddefnyddwyr gwasanaethau) ddim yn cael eu cynnwys yn ddigon da. Mae'n sicr bod yna le i wella wrth gynnwys pobl hŷn mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal, ond hefyd o ran gwelliannau sy'n helpu i gyflwyno gofal.

Yn ystod yr ymgynghoriad cydnabuwyd bod angen ymagwedd at ystyried anghenion pobl hŷn sy'n canolbwyntio ar y person. Teimlid bod y prosesau cyfredol yn rhoi gormod o bwyslais ar broblemau iechyd penodol yn hytrach nag ystyried y darlun cyfan, ac oherwydd hynny felly y gall cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar gael eu colli.

Mae'r 'ymagwedd berson-ganolog' hon yn sylfaenol ar gyfer rhagosodiad canolog llyfr y cardiolegydd Bernard Lown, "The Lost Art of Healing: Practicing Compassion in Medicine," sy'n dweud:

"Healing is replaced by treating, caring is supplanted by managing, the art of listening is taken over by technological procedures. Doctors no longer minister to a distinctive person but concern themselves with fragmented, malfunctioning biologic parts. The distressed human being is frequently absent from the transaction."

Meysydd ar gyfer rhagor o ddeialog

Diffiniad o eiddilwch
Gellid rhoi rhagor o ystyriaeth i chwilio am ddiffiniad cyffredin, cytûn o eiddilwch i helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o eiddilwch a'i effaith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen symud at ddatblygu model cymdeithasol o eiddilwch yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar y person.

Cyd-ddealltwriaeth o wasanaethau integredig

Mae angen cyd-ddeall y term gwasanaethau integredig ar draws y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Ar sail hynny mae angen datblygu llwybr pobl er mwyn i'r seilwaith gwasanaethau cyfredol gael ei ddefnyddio'n fwy deallus. Mae angen adnabod rhwystrau sy'n atal gwaith partneriaeth ar hyn o bryd a mynd i'r afael â nhw.

Cynllun clir ac arweinyddiaeth wych
Mae angen cynllun clir a ffordd ymlaen clir, a bydd hynny'n gofyn ymrwymiad ar y lefel uchaf yn ein gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau'r newid hwnnw. Mae newid yn dechrau â gweledigaeth gref ac arweinyddiaeth effeithiol.

Ymgysylltu – beth mae pobl eisiau?
Mae angen i wasanaethau fod yn hyblyg a chael eu harwain gan hoffterau a dewisiadau'r defnyddiwr gwasanaeth. Dylid cael cyfleoedd cyson i adolygu gwasanaethau a dylai unrhyw asesiad gynnwys barn defnyddwyr y gwasanaeth fel un o'r ystyriaethau canolog.

Grymuso ac addysgu
Mae angen i wasanaethau arddel ymagwedd gyson wrth sicrhau bod pobl hŷn yn cael gwybod yn llawn am yr opsiynau cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Mae angen bod yn gliriach ynghylch sut i gyrchu a symud drwy'r system o wasanaethau cymorth yn effeithiol.

Mae angen i bobl hŷn wybod pa hawliau sydd ganddyn nhw a beth i'w wneud os na fyddan nhw'n fodlon ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu cael. Mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus roi mwy o rym i bobl hŷn drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn ym mhroses cynllunio gofal ac yn dal i reoli'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cael.

Mae angen i staff sy'n gweithio gyda phobl hŷn gael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn deall ac yn gallu defnyddio ymagwedd newydd at rymuso pobl hŷn yn y broses o gynllunio gofal a'i gyflwyno.

Dysgu o'r arferion gorau

Mae angen i enghreifftiau o'r arferion gorau gael eu nodi a'u rhannu ledled Cymru. Mae cloriannu methodoleg cynlluniau llwyddiannus a dysgu oddi wrthyn nhw yn allweddol.

Enghreifftiau o arferion da Rhaglen Eiddilwch Gwent www.gwentfrailty.torfaen.gov.uk/ Canolfan Heneiddio'n Dda Ynys Môn www.angleseyagewell.co.uk

Y camau nesaf

- Mae angen i bawb weithredu. Ewch â'r adroddiad yma a'i ddefnyddio yn y cylchoedd rydych chi'n dylanwadu arnyn nhw i greu gwasanaethau cydweithredol a chymunedol sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Rôl y Comisiwn fel cyfryngwr ac i sbarduno newid ymarferol.
- Goblygiadau'r Ddeddf Cydraddoldeb
- Trafodaeth gyffredinol
- Ar beth y dylen ni benderfynu yn genedlaethol a sut mae rhoi cefnogaeth wirioneddol i ffyrdd lleol i symud ymlaen? Harneisio egni lleol.